

Gwasanaethau Preswyl

Ffurflen apêl tenantiaeth

Os ydych wedi gwneud cais mewn perthynas â'ch tenantiaeth, eich bod wedi derbyn penderfyniad ac nad ydych yn hapus â'r canlyniad gallwch apelio drwy lenwi'r ffurflen hon.

1. Cyn llenwi'r ffurflen hon, sicrhewch eich bod wedi darllen y weithdrefn apelio tenantiaeth Gwasanaethau Preswyl ar-lein.
2. Cyflwynwch y ffurflen hon i swyddfa ganolog Gwasanaethau Preswyl yn y cyfeiriad isod, drwy e-bostio llety@abertawe.ac.uk neu yn bersonol i Wasanaethau Preswyl yn Adeilad Penmaen.

Gwasanaethau preswyl
Adeiladu Penmaen
Prifysgol Abertawe
Parc Singleton,
Abertawe. SA2 8PG
3. Cadwch gopi o'r ffurflen hon, yn ogystal ag unrhyw ddeunydd rydych yn ei gyflwyno ar gyfer eich cofnodion.
4. Byddwn yn cydnabod derbyn eich apêl o fewn 5 diwrnod gwaith (h.y. heb gynnwys gwyliau cyhoeddus a gwyliau swyddogol y Brifysgol).
5. Byddwch yn derbyn ymateb ysgrifenedig o fewn 15 diwrnod gwaith i dderbyn yr apêl.
Os bydd amgylchiadau'n golygu bod ymateb llawn yn debygol o gymryd mwy o amser byddwn yn eich hysbysu o hyn ac yn sicrhau bod amserlen newydd yn cael ei phennu a'i chyfleu i chi.
6. Oni chytunir yn wahanol, dilynir gweithdrefnau apelio tenantiaeth y Gwasanaethau Preswyl.

Caiff pob apêl ei thrin yn gyfrinachol, er y bydd yn rhaid gwneud ymholiadau i ymchwilio i'r materion sy'n destun yr apêl.

Mae effeithiolrwydd unrhyw weithdrefn apêl yn dibynnu ar allu'r Brifysgol i gasglu gwybodaeth briodol oddi wrth y partïon perthnasol er mwyn ymchwilio i'r mater yn briodol. Am y rheswm hwn, ni fyddwn yn delio ag apeliadau dienw neu 3ydd Parti.

Os bydd angen cyngor arnoch wrth baratoi eich apêl, fe'ch cynghorir i ofyn am gymorth gan eich Canolfan Cynghori Undeb y Myfyrwyr neu Wasanaethau Cymorth i fyfyrwyr.

